Lwfans Gofalwr

Mai 2009

DWP Adran Gwaith a Phensiynau

Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr

Gwybodaeth bwysig am y daflen hon

Canllaw yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n cwmpasu pob amgylchiad. Rydym wedi gwneud ein gorau i sicrhau fod y daflen yn gywir o fis Mai 2009. Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gorsymleiddio neu'n dod yn llai cywir dros amser, er enghraifft oherwydd newidiadau i'r gyfraith.

Ffoniwch ni rhwng 8.30am a 6.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, neu rhwng 9am a 1pm ar ddydd Sadwrn.

Ffôn **0800 88 22 00** Testun **0800 24 33 55**

Cynnwys

Beth yw gofalwr? 5
Beth yw Lwfans Gofalwr? 5
A allaf gael Lwfans Gofalwr? 5
Os ydw i'n cael budd-daliadau eraill, allaf gael Lwfans Gofalwr o hyd? 7
Gwneud cais am Lwfans Gofalwr er mwyn eich helpu i gael budd-daliadau eraill 8
A oes angen i mi fyw ym Mhrydain Fawr i gael Lwfans Gofalwr? 9
Beth os wyf yn byw mewn gwlad arall yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir ar hyn o bryd? 12
Beth os oes gan y person anabl fwy nag un gofalwr? 13
Beth os wyf yn gofalu am fwy nag un person? 13
Beth os oes dau ofalwr yn yr un cartref? 13
A fydd fy Lwfans Gofalwr yn effeithio ar fudd-daliadau'r person rwy'n gofalu amdano? 14

Ewch i'n gwefan yn:

www.direct.gov.uk/carers

Beth os oes newid yn y budd-dal a delir i'r person rwy'n gofalu amdano? 15
A allaf gael Lwfans Gofalwr o hyd os ydw i'n gweithio? 15
Lwfans Gofalwr ac Ail Bensiwn y Wladwriaeth 16
Lwfans Gofalwr a chyfraniadau Yswiriant Gwladol 17
A allaf gael mwy o arian ar gyfer fy nibynyddion? 18
Beth os oes rhywun arall yn y cartref yn gofalu am fy mhlant? 19
Cyfweliadau sy'n canolbwyntio ar waith i ofalwyr 20
Sut gallaf wneud cais am Lwfans Gofalwr neu gael rhagor o wybodaeth?.....21
Pa help arall sydd ar gael? 24
Cost galwadau 26
Ffonau testun 27
Fformatau eraill 28

Beth yw gofalwr?

Gofalwr yw rhywun sy'n gofalu am berson sy'n anabl.

Beth yw Lwfans Gofalwr?

Efallai y gall gofalwyr gael budd-dal a elwir yn Lwfans Gofalwr.

Mae hwn yn gyfraniad tuag at incwm gofalwyr na allant weithio'n llawn amser. Nid yw'n gyflog am ofalu.

I weld faint yw Lwfans Gofalwr, ewch i wefan Directgov neu cysylltwch â ni. Mae ein manylion isod neu ar dudalen 21.

A allaf gael Lwfans Gofalwr?

Efallai y gallwch gael Lwfans Gofalwr am y rhesymau canlynol:

- rydych yn 16 oed neu'n hŷn
- rydych yn bodloni amodau am ba wlad rydych yn byw ynddi
- nid ydych yn ennill mwy na'r 'terfyn enillion'

- nid ydych mewn addysg llawn amser (21 awr neu fwy o astudio wedi'i oruchwylio bob wythnos), ac
- rydych am o leiaf 35 awr yr wythnos yn gofalu am rywun sy'n cael:
  - Lwfans Byw i'r Anabl ar y gyfradd ganol neu'r gyfradd uchaf ar gyfer gofal, neu
  - Lwfans Gweini, neu
  - Lwfans Gweini Cyson ar y cyfraddau uchaf arferol neu'n uwch gyda Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol neu'r gyfradd sylfaenol (diwrnod llawn) gyda Phensiwn Anabledd Rhyfel.

Ar gyfer Lwfans Gofalwr, mae 'wythnos' yn saith diwrnod, o ddydd Sul i ddydd Sadwrn.

Felly gallwch gael Lwfans Gofalwr hyd yn oed os mai ar benwythnosau'n unig rydych yn darparu gofal.

Er enghraifft, os ydych yn gofalu am blentyn anabl sydd i ffwrdd yn ystod yr wythnos am o leiaf 35 awr bob penwythnos, gallwch gael Lwfans Gofalwr o hyd.

Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu treth ar eich Lwfans Gofalwr.

Nid yw swm y cynilion sydd gennych o bwys ar gyfer Lwfans Gofalwr.

Os ydw i'n cael budd-daliadau eraill, a allaf gael Lwfans Gofalwr o hyd?

Os ydych yn cael un o'r budd-daliadau canlynol, ar swm uwch na Lwfans Gofalwr, ni allwn dalu Lwfans Gofalwr i chi ond dylech wneud cais amdano o hyd - gweler 'Gwneud cais am Lwfans Gofalwr er mwyn eich helpu i gael budd-daliadau eraill' ar dudalen 8:

- Pensiwn y Wladwriaeth
- Budd-dal Analluogrwydd
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar gyfraniadau
- Lwfans Anabledd Difrifol
- Lwfans hyfforddi
- Atodiad i'r Anghyflogadwy – a delir gyda Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol neu Bensiwn Anabledd Rhyfel
- Pensiwn Gwraig Weddw neu Lwfans Profedigaeth
- Lwfans Mam Weddw neu Lwfans Rhiant Gweddw
- Lwfans Mamolaeth

- Budd-dal Marwolaeth Ddiwydiannol
- Lwfans Hyfforddi Ieuenctid
- Lwfans Hyfforddiant ar gyfer Swydd neu Lwfans Adfer Cyflogaeth.

Gwneud cais am Lwfans Gofalwr er mwyn eich helpu i gael budd-daliadau eraill

Hyd yn oed os na allwch gael Lwfans Gofalwr gan eich bod yn cael un o'r budd-daliadau ar dudalen 7, dylech wneud cais amdano o hyd. Mae hyn oherwydd y gallai eich helpu i gael arian ychwanegol gydag un o'r budd-daliadau canlynol:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Credyd Pensiwn
- Budd-dal Tai
- Budd-dal Treth Cyngor.

Gall hyn hefyd eich helpu i gronni cyfraniadau Yswiriant Gwladol fel y byddech yn cael rhywfaint o Ail Bensiwn y Wladwriaeth yn ogystal â'ch Pensiwn y Wladwriaeth sylfaenol pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Gweler tudalennau 16-17.

A oes angen i mi fyw ym Mhrydain Fawr i gael Lwfans Gofalwr?

Os ydych yn byw yn un o wledydd eraill yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu yn y Swistir, gweler tudalen 12.

I gael Lwfans Gofalwr, mae'r rheolau cyffredinol fel a ganlyn:

- rhaid i chi fod yn 'breswylydd arferol' ym Mhrydain Fawr (hynny yw, rhaid i chi fyw yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban y rhan fwyaf o'r amser, heblaw am fynd i ffwrdd bob hyn a hyn)
- rhaid i chi fod ym Mhrydain Fawr pan fyddwch yn gwneud cais
- rhaid i chi fod wedi bod ym Mhrydain Fawr, Gogledd Iwerddon, Ynys Manaw, Jersey neu Guernsey am 26 wythnos o'r 12 mis diwethaf
- ni ddylech fod yn 'destun rheolaeth fewnfudo' - mewn geiriau eraill, ni ddylai fod angen caniatâd arnoch i ddod i mewn i'r DU neu aros yno neu gael eich rhwystro rhag cael budd-daliadau.

Mae eithriadau i'r rheolau cyffredinol hyn. Dyma rai enghreifftiau:

- Gellir trin aelodau o'r lluoedd sy'n gwasanaethu dramor (a'u teuluoedd), awyrenwyr a morwyr sifil sy'n gweithio dramor, a gweithwyr ar sector y DU o'r silff gyfandirol (er enghraifft, ar lwyfan olew) fel eu bod ym Mhrydain Fawr.
- Gall pobl hefyd gael eu trin fel eu bod ym Mhrydain Fawr os ydynt dramor am gyfnod dros dro am hyd at bedair wythnos, neu er mwyn gofalu am berson anabl sydd dramor hefyd ac yn cael budd-dal a restrir ar dudalen 6 ('A allaf gael Lwfans Gofalwr?').
- Nid yw rheolaeth fewnfudo yn atal rhywun rhag cael Lwfans Gofalwr os ydynt:
  - yn aelod o deulu person o un o wledydd yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (gweler y nodyn ar dudalen 12)
  - yn gweithio ym Mhrydain Fawr fel person o wlad sydd â chytundeb triniaeth gyfartal gyda'r Undeb Ewropeaidd (sef Twrci, Moroco, Algeria, Twnisia a San Marino)
  - yn byw gydag un o'r gweithwyr hyn fel aelod o'u teulu, neu

- yn berson sydd wedi cael caniatâd i ddod i mewn i'r DU neu aros yma gan fod rhywun wedi cytuno i fod yn gyfrifol am eu cynnal a'u llety.

Gofynnwch i ni am ragor o wybodaeth os bydd ei hangen arnoch. Mae ein manylion cyswllt ar dudalen 21.

Beth os wyf yn byw yn un o wledydd eraill yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir ar hyn o bryd?

Os ydych eisoes yn byw yn un o wledydd eraill yr Ardal Economaidd Ewropeaidd neu yn y Swistir, ewch i **www.direct.gov.uk/claimingbenefits** am wybodaeth ar p'un a allwch gael Lwfans Gofalwr yn y wlad lle rydych yn byw ynddi neu ysgrifennwch at:

The Exportability Co-ordinator
Room C216, PDCS
Warbreck House
Warbreck Hill Road
Blackpool
FY2 0YE.

Noder: Mae'r Ardal Economaidd Ewropeaidd yn cynnwys 27 o aelodau-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd (Awstria, Gwlad Belg, Bwlgaria, Cyprus, Gweriniaeth Siec, Denmarc, Estonia, y Ffindir, Ffrainc, yr Almaen, Groeg, Hwngari, Iwerddon, yr Eidal, Latfia, Lithwania, Lwcsembwrg, Malta, Yr Iseldiroedd, Gwlad Pwyl, Portiwgal, Gweriniaeth Iwerddon, Romania, Slofacia, Slofenia, Sbaen, Sweden a'r DU), yn ogystal â Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy.

Beth os oes gan y person anabl fwy nag un gofalwr?

Dim ond i un gofalwr y gallwn dalu Lwfans Gofalwr. Gall y gofalwyr benderfynu pwy ddylai wneud cais.

Beth os wyf yn gofalu am fwy nag un person?

Dim ond am ofalu am un person y gellir talu Lwfans Gofalwr.

Beth os oes dau ofalwr yn yr un cartref?

Gall mwy nag un person yn yr un cartref wneud cais am Lwfans Gofalwr, ond rhaid iddynt fod yn gofalu am bobl wahanol.

Er enghraifft, os yw'r ddau riant yn gofalu am ddau blentyn anabl a bod y ddau yn bodloni'r amodau cymhwyso ar gyfer Lwfans Gofalwr, gallai'r ddau wneud cais am Lwfans Gofalwr am ofalu am un o'r plant anabl.

Neu efallai bod gŵr yn gofalu am ei wraig a hithau'n gofalu am rywun arall sy'n byw gyda nhw.

Yn yr achos hwn, gall y gŵr a'r wraig wneud cais am Lwfans Gofalwr.

Efallai bod rhai cyplau'n gofalu am ei gilydd. Os yw'r ddau bartner yn bodloni'r amodau ar gyfer Lwfans Gofalwr, gall y ddau wneud cais.

A fydd fy Lwfans Gofalwr yn effeithio ar fudd-daliadau'r person rwy'n gofalu amdano?

Mae hyn yn dibynnu ar ba fudd-dal maent yn ei gael.

Nid yw Lwfans Gofalwr yn effeithio ar Lwfans Byw i'r Anabl, Lwfans Gweini a Lwfans Gweini Cyson.

Fodd bynnag, os yw'r person anabl wedi bod yn cael arian ychwanegol oherwydd anabledd difrifol gyda budd-dal sy'n gysylltiedig ag incwm neu Gredyd Pensiwn, daw'r arian ychwanegol hwn i ben os cewch Lwfans Gofalwr.

Os credwch y bydd hyn yn effeithio arnoch chi neu'r person rydych yn gofalu amdano, cysylltwch â'r Uned Lwfans Gofalwr am gyngor (gweler tudalen 22 am fanylion).

Beth os oes newid yn y budd-dal a delir i'r person rwy'n gofalu amdano?

Rhaid i chi roi gwybod i ni os oes newid yng nghyfradd y Lwfans Byw i'r Anabl, Lwfans Gweini neu Lwfans Gweini Cyson a delir i'r person rydych yn gofalu amdano, neu os daw i ben yn gyfan gwbl.

A allaf gael Lwfans Gofalwr o hyd os ydw i'n gweithio?

Gallwch wneud rhywfaint o waith heb golli eich budd-dal.

Os nad ydych yn ennill mwy na'r 'terfyn enillion' ar ôl tynnu'r taliadau neu'r treuliau canlynol, gallwch gael Lwfans Gofalwr o hyd:

- Treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol.
- Hanner unrhyw arian a delir gennych i mewn i bensiwn gwaith neu bensiwn personol.
- Rhan o'ch costau gwaith - er enghraifft, dillad arbennig sydd eu hangen arnoch ar gyfer eich swydd.

- Rhan o'r gost ar gyfer rhywun (nid perthynas agos) i ofalu am eich plentyn, neu'r person rydych yn gofalu amdano, tra'ch bod yn gweithio.

Os byddwch yn ennill mwy na'r terfyn enillion mewn rhai wythnosau, ni fyddwn yn talu Lwfans Gofalwr ar gyfer yr wythnosau hynny.

Os bydd eich enillion yn codi uwchlaw'r terfyn enillion tra'ch bod yn cael Lwfans Gofalwr, rhaid i chi roi gwybod i ni.

I ganfod y terfyn enillion, ewch i wefan Directgov neu cysylltwch â ni - gweler ein manylion isod neu ar dudalen 21.

Lwfans Gofalwr ac Ail Bensiwn y Wladwriaeth

Os ydych yn gymwys i gael Lwfans Gofalwr, efallai y gallwch gronni Ail Bensiwn y Wladwriaeth.

Gall hyn ddigwydd hyd yn oed os ydych yn gymwys i gael Lwfans Gofalwr ond nad ydych yn ei gael oherwydd budd-daliadau eraill a gewch.

Telir y pensiwn ychwanegol gyda'ch Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth pan fyddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Lwfans Gofalwr a chyfraniadau Yswiriant Gwladol

Ar gyfer pob wythnos y cewch Lwfans Gofalwr, byddwn yn rhoi credyd Yswiriant Gwladol i chi hyd at y flwyddyn dreth lle byddwch yn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Byddwch hefyd yn cael y credyd hwn os na chewch Lwfans Gofalwr gan eich bod yn cael Budd-dal Gwraig Weddw neu Fudd-dal Profedigaeth ar yr un gyfradd neu ar gyfradd wythnosol uwch na'r Lwfans Gofalwr.

Mae credydau Yswiriant Gwladol yn diogelu eich hawl i gael budd-daliadau fel:

- Pensiwn y Wladwriaeth
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar gyfraniadau
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau, a
- Budd-dal Analluogrwydd.

Os ydych yn wraig briod a ddewisodd dalu'r gyfradd ostyngol o Yswiriant Gwladol, ni fyddwch yn cael y credydau hyn.

A allaf gael mwy o arian ar gyfer fy nibynyddion?

Os nad yw eich gŵr, eich gwraig neu'ch partner sifil sy'n byw gyda chi yn ennill mwy na'r terfyn enillion, efallai y gallwch gael Lwfans Gofalwr ychwanegol.

(Partner sifil yw rhywun sydd wedi ffurfio cytundeb ffurfiol, a elwir yn 'bartneriaeth sifil' gyda phartner o'r un rhyw fel bod ganddynt yr un statws cyfreithiol â chwpl priod.)

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Uned Lwfans Gofalwr - gweler tudalen 22 am fanylion.

Os oes plant yn dibynnu ar eich incwm, efallai y gallwch gael Credyd Treth Plant.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â swyddfa Cyllid a Thollau EM:

- **0845 300 39 00** (ffôn)
- **0845 300 39 09** (ffôn testun)
- Gwefan: **www.hmrc.gov.uk/taxcredits**

Neu gallwch ysgrifennu at:
Tax Credit Office
Preston
PR1 0SB.

Beth os oes rhywun arall yn y cartref yn gofalu am fy mhlant?

Os nad oes gennych ŵr, gwraig na phartner sifil yn byw gyda chi, efallai y cewch Lwfans Gofalwr ychwanegol os oes oedolyn arall sy'n byw gyda chi'n gofalu am unrhyw blant y cewch Fudd-dal Plant amdanynt. Mae rhai eithriadau i hyn.

Ni all y person sy'n gofalu am eich plant ennill mwy na swm penodol sy'n cynnwys eu pensiwn personol neu alwedigaethol.

Cyfweliadau sy'n canolbwyntio ar waith i ofalwyr

Efallai y bydd y Ganolfan Byd Gwaith yn eich gwahodd i gyfweliad sy'n canolbwyntio ar waith gydag ymgynghorydd personol os cewch Lwfans Ceisio Gwaith, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu Fudd-dal Analluogrwydd yn ogystal â Lwfans Gofalwr.

Mae hyn er mwyn eich helpu i ystyried opsiynau gwaith gwahanol. Yn y cyfweliad bydd yr ymgynghorydd yn gofyn i chi am y math o waith â thâl yr hoffech ei wneud a thrafod:

- eich sgiliau a'ch profiad
- unrhyw anawsterau y gallech eu cael i ddod o hyd i waith â thâl
- sut y gall y Ganolfan Byd Gwaith eich helpu chi.

Os cewch Lwfans Gofalwr heb unrhyw un o'r budd-daliadau eraill hyn, gallwch ofyn am gyfweliad sy'n canolbwyntio ar waith ar unrhyw adeg. Os ydych am gydbwyso gwaith â chyfrifoldebau gofalu, efallai y gall y Ganolfan Byd Gwaith eich helpu chi nawr neu'n ddiweddarach os bydd eich cyfrifoldebau gofalu yn newid. Er enghraifft, gallech fynd ar gwrs i'ch helpu i gael swydd neu i wella eich sgiliau.

Os hoffech drafod p'un a allai cyfweliad sy'n canolbwyntio ar waith eich helpu, neu er mwyn trefnu cyfweliad sy'n canolbwyntio ar waith, cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith. Mae'r cyfeiriad a'r rhifau yn eich llyfr ffôn.

Sut wyf yn gwneud cais am Lwfans Gofalwr neu'n cael rhagor o wybodaeth?

I wneud cais am Lwfans Gofalwr, mae angen i chi lenwi ffurflen gais neu wneud cais ar-lein.

Mae nifer o ffyrdd y gallwch gysylltu â ni:

Dros y ffôn

Llinell Ymholiadau Budd-daliadau

I gael ffurflen gais, a help i'w llenwi, gallwch ffonio'r Llinell Ymholiadau Budd-daliadau ar:

- **0800 88 22 00** (ffôn), neu
- **0800 24 33 55** (ffôn testun).

Gallwch ein ffonio rhwng 8.30am a 6.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, neu rhwng 9am ac 1pm ar ddydd Sadwrn.

Os nad Cymraeg neu Saesneg yw eich iaith gyntaf, gallwch ddefnyddio eich cyfieithydd eich hun neu un a ddarperir gennym ni.

Os ydych yn cael anawsterau gyda'ch lleferydd neu eich clyw, mae gwasanaeth ffôn testun ar gael ar **0800 24 33 55**.

Pan fyddwch yn ein ffonio, dim ond rhoi cyngor y gall y person sy'n ateb eich galwad. Nid yw'r cyngor hwn yr un peth â phenderfyniad ar gais.

Uned Lwfans Gofalwr

- **01772 89 97 29** (ffôn)
- **01772 56 22 02** (ffôn testun)

Mae'r llinellau ar agor rhwng 8.30am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Iau, a rhwng 8.30am a 4.30pm ar ddydd Gwener.

Rydym hefyd yn croesawu galwadau gan RNID Typetalk.

Yn bersonol

Os ydych am siarad â rhywun wyneb yn wyneb, gall yr Uned Lwfans Gofalwr drefnu hyn i chi.

Drwy'r post

Gallwch ysgrifennu at:

Carer's Allowance Unit
Palatine House
Lancaster Road
Preston
PR1 1HB.

Dros e-bost

Gallwch anfon neges e-bost atom yn
cau.customer-services@dwp.gsi.gov.uk

Ar-lein

Directgov

I gael gwybodaeth ar gyfer pobl anabl a gofalwyr ynglŷn â:

- chymorth ariannol
- cyngor cyffredinol
- hawliau

a llawer mwy, ewch i
www.direct.gov.uk/carers

Drwy'r wefan hon, gallwch hefyd:

- wneud cais am Lwfans Gofalwr ar-lein
- argraffu ffurflen gais wag i'w llenwi â llaw a'i phostio atom.

Pa help arall sydd ar gael?

Carers Direct
Mae'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i ofalwyr drwy ei wasanaeth Carers Direct.

- Ffôn: **08088 02 02 02**
- Gwefan: **www.nhs.uk/carersdirect**

Carers UK
Mae Carers UK yn grŵp sy'n helpu gofalwyr. Gall roi gwybod i chi am fudd-daliadau a'r mathau o gymorth y gallwch eu cael yn eich ardal.

- Ffôn: **08088 08 77 77**
- Gwefan: **www.carersuk.org**

Mae'r llinellau ar agor rhwng 10am a hanner dydd a rhwng 2pm a 4pm ar ddydd Mercher a dydd Iau.

The Princess Royal Trust for Carers
Nod yr ymddiriedolaeth hon yw helpu gofalwyr drwy ganolfannau lleol. Gall roi gwybod i chi ble mae eich canolfan leol i ofalwyr.

- Ffôn: **0844 800 4361**
- Gwefan: **www.carers.org**

Croesffyrdd (yng Nghymru a Lloegr)
Mae'r gwasanaeth hwn yn rhoi cymorth ymarferol i ofalwyr yng Nghymru a Lloegr drwy roi amser iddynt i ffwrdd o'u cyfrifoldebau gofalu.

Gall Croesffyrdd roi gwybod i chi lle mae eich cangen leol.

- Ffôn: **08454 50 03 50**
- Gwefan: **www.crossroads.org.uk**

Cost galwadau

Roedd y taliadau'n gywir ar y dyddiad ar gefn y daflen hon.

Mae galwadau i rifau **0800** am ddim o linellau daear BT ond efallai y bydd yn rhaid i chi dalu os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall, ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Ni ddylai galwadau i rifau **0845** o linellau daear BT gostio mwy na 4c y funud a 7c am sefydlu'r alwad. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall neu ffôn symudol, neu os byddwch yn ffonio o dramor.

Gall galwadau o ffonau symudol gostio hyd at 40c y funud, felly holwch eich darparwr gwasanaeth am gost galwadau.

Ffonau testun – os ydych yn cael anhawster gyda'ch lleferydd neu'ch clyw

Mae ein rhifau ffôn testun ar gyfer pobl na allant siarad neu glywed yn glir. Os nad oes gennych ffôn testun, gallech holi a oes gan eich llyfrgell neu ganolfan cyngor ar bopeth un. Nid yw ffonau testun yn derbyn negeseuon testun o ffonau symudol.

Gallwch hefyd ffonio gan ddefnyddio RNID Typetalk.

Ffoniwch ni rhwng 8.30am a 6.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener neu rhwng 9am a 1pm ar ddydd Sadwrn.

Mae'r daflen hon ar gael mewn fformatau eraill

Ffoniwch **0800 88 22 00** i gael rhagor o wybodaeth.

Os ydych yn ei chael hi'n anodd clywed neu siarad yn glir, gallwch archebu'r taflenni hyn o'n gwasanaeth ffôn testun ar **0800 24 33 55**.

Gallwch ffonio'r rhifau hyn rhwng 8.30am a 6.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener neu rhwng 9am a 1pm ar ddydd Sadwrn.

ISBN: 978-1-84763-802-1

© Hawlfraint y Goron

Cynhyrchwyd gan y Gwasanaeth Anabledd a Gofalwyr, rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Argraffwyd yn y DU. Mai 2009.

CAA5DCSWLP